IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 105

# TRAFFIG FFYRDD

## Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Pen-sarn i Bont Abraham, Sir Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Mehefin 2026* |
| *Yn dod i rym* | *16 Mehefin 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Pen-sarn i Bont Abraham, Sir Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mehefin 2026.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 No. 105

# ROAD TRAFFIC

## The A48 Trunk Road (Pensarn to Pont Abraham, Carmarthenshire) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *12 June 2026* |
| *Coming into force* | *16 June 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A48 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the roads.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A48 Trunk Road (Pensarn to Pont Abraham, Carmarthenshire) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2026 and this Order comes into force on 16 June 2026.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 16 Mehefin 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiadau a chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**);

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" ("*lluoedd arbennig*") means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A48 London to Fishguard trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 16 June 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

**Prohibitions and restrictions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

**5.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

**6.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**8.**—(1)Ni fydd y gwaharddiadau na'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal dros dro**

**9.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Mehefin 2026

*Nicci Hunter*
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

**7.** No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order during such times as the restriction referred to in article 6 is in operation.

**Application**

**8.**—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

**Suspension**

**9.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 4, 5 and 6 are in operation.

**Duration of this Order**

**10.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated 12 June 2026

*Nicci Hunter*
Head of Governance and Assurance
Welsh Government

## ATODLEN 1

### Gwahardd cerbydau dros dro

1. Y darn o gefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Cross Hands hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.

2. Y darn o gefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pont Abraham hyd at ei chyffordd â Chylchfan Cross Hands.

## SCHEDULE 1

### Temporary prohibition of vehicles

1. The length of the A48 trunk road that extends from its junction with Cross Hands Roundabout to its junction with Pensarn Roundabout.

2. The length of the A48 trunk road that extends from its junction with Pont Abraham Roundabout to its junction with Cross Hands Roundabout.

## ATODLEN 2

### Terfyn cyflymder 50 mya, 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn hyd at bwynt 20 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Pen-sarn.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 20 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Pen-sarn hyd at bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Cross Hands.

3. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Cross Hands hyd at bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Cross Hands.

4. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Cross Hands hyd at bwynt 450 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Pont Abraham.

5. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 450 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Pont Abraham hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pont Abraham.

6. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i mynedfa i Gylchfan Pont Abraham, gan barhau o amgylch y gylchfan ac yn cynnwys y darn cyfan o'r gylchfan hyd at bwynt 115 o fetrau i'r gorllewin o'r gylchfan.

7. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 115 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Pont Abraham hyd at bwynt 150 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Cross Hands.

8. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Cross Hands hyd at bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Cross Hands.

9. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Cross Hands hyd at bwynt 425 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Pen-sarn.

10. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 425 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Pen-sarn hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.

## SCHEDULE 2

### Temporary 50 mph, 40 mph or 10 mph speed limit and no overtaking

1. The length of the A48 trunk road eastbound carriageway that extends from its junction with Pensarn Roundabout to a point 20 metres east of Pensarn Roundabout.

2. The length of the A48 trunk road eastbound carriageway that extends from a point 20 metres east of Pensarn Roundabout to a point 170 metres west of Cross Hands Roundabout.

3. The length of the A48 trunk road eastbound carriageway that extends from a point 170 metres west of Cross Hands Roundabout to a point 130 metres east of Cross Hands Roundabout.

4. The length of the A48 trunk road eastbound carriageway that extends from a point 130 metres east of Cross Hands Roundabout to a point 450 metres west of Pont Abraham Roundabout.

5. The length of the A48 trunk road westbound carriageway that extends from a point 450 metres west of Pont Abraham roundabout to its junction with Pont Abraham Roundabout.

6. The length of the A48 trunk road westbound carriageway that extends from its entry onto the Pont Abraham Roundabout, continuing around and including the full length of the roundabout to a point 115 metres west of the roundabout.

7. The length of the A48 trunk road westbound carriageway that extends from a point 115 metres west of Pont Abraham Roundabout to a point 150 metres east of the Cross Hands Roundabout.

8. The length of the A48 trunk road westbound carriageway that extends from a point 150 metres east of Cross Hands Roundabout to a point 170 metres west of Cross Hands Roundabout.

9. The length of the A48 trunk road westbound carriageway that extends from a point 170 metres west of Cross Hands Roundabout to a point 425 metres east of Pensarn Roundabout.

10. The length of the A48 trunk road westbound carriageway that extends from a point 425 metres east of Pensarn Roundabout to its junction with Pensarn Roundabout.